# Y Pwyllgor Busnes

**Cofnodion BC(3)23-09**

**Dyddiad:** Dydd Mawrth 22 Medi 2009

**Amser:** 08.30 am

**Lleoliad:** Ystafell Gyfarfod 4ydd Llawr, yr Uned Gorfforaethol

**Aelodau'r Cynulliad yn bresennol**

Dafydd Elis-Thomas, y Llywydd (Cadeirydd)

Carwyn Jones, Arweinydd y Tŷ

Jocelyn Davies, Rheolwr Busnes Plaid Cymru

Alun Cairns, Rheolwr Busnes y Ceidwadwyr Cymreig

Peter Black, Rheolwr Busnes Democratiaid Rhyddfrydol Cymru

**Swyddogion yn bresennol**

Adrian Crompton, Cyfarwyddwr Busnes y Cynulliad

Mandy Lewis, Swyddfa Arweinydd y Tŷ

Sulafa Halstead, Pennaeth Pwyllgorau'r Cynulliad

Sian Wilkins, Pennaeth Gwasanaeth y Siambr a Deddfwriaeth

Marc Wyn Jones, Clerc y Pwyllgor Busnes

**1. Ymddiheuriadau a chyhoeddiadau**

**2. Cofnodion y cyfarfod blaenorol**

**(i) BC(3)22-08 (Cofnodion drafft) - Dydd Mawrth 14 Gorffennaf 2009**

2.1 Cyflwynwyd y cofnodion i'r Pwyllgor ar eu ffurf ddrafft. Gan nad oedd unrhyw sylwadau, byddent yn cael eu cyfieithu yn barod i'w cyhoeddi.

**Camau i'w cymryd: Ysgrifenyddiaeth y Pwyllgor Busnes**

**3. Busnes i ddod**

**Busnes yr wythnos hon - BC(3)23-09(p1)**

3.1 Dywedodd Arweinydd y Ty y byddai y Dirprwy Weinidog dros Adfywio yn gwneud datganiad ar y Rhaglen Trosglwyddo Asedau Cymunedol yn y Cyfarfod Llawn ddydd Mawrth.

3.2 Nododd y Pwyllgor na ddylai'r Cyfnod Pleidleisio ddigwydd cyn 5 pm ddydd Mawrth na dydd Mercher.

3.3 Nododd y Pwyllgor drefn busnes ar gyfer 22 a 23 Medi 2009.

**Amserlen busnes y Llywodraeth ar gyfer y tair wythnos nesaf - BC(3)23-09(p2)**

3.4 Nododd y Pwyllgor amserlen busnes y Llywodraeth ar gyfer y tair wythnos nesaf.

**Amserlen busnes y Cynulliad a busnes heblaw busnes y Llywodraeth ar gyfer y tair wythnos nesaf - BC(3)23-09(p3)**

3.5 Cytunodd y Pwyllgor Busnes i drefnu amser ar gyfer trafod y materion canlynol:

**Dydd Mercher 30 Medi 2009:**

Cynigion i ethol Aelodau i Bwyllgorau (1 munud)

Dadl ar adroddiad y Pwyllgor Menter a Dysgu ar ei Ymchwiliad i Rôl Llywodraethwyr Ysgolion (60 munud)

Dadl ar adroddiad yr Is-bwyllgor Datblygu Gwledig ar ei Ymchwiliad i Gynhyrchu a Hybu Bwyd o Gymru (60 munud)

**Dydd Mercher 07 Hydref 2009:**

Dadl ar adroddiad dros dro y Pwyllgor Materion Ewropeaidd ac Allanol ar y Gyfarwyddeb Ddrafft ar Hawliau Cleifion mewn Gofal Iechyd Trawsffiniol (60 munud)

**Dydd Mercher 14 Hydref 2009:**

Dadl Cyfnod 3 Rheol Sefydlog 23.57 ar y Mesur Arfaethedig Comisiynydd Safonau Cynulliad Cenedlaethol Cymru (90 munud)

Cynnig Cyfnod 4 Rheol Sefydlog 23.58 i gymeradwyo Mesur Arfaethedig Comisiynydd Safonau Cynulliad Cenedlaethol Cymru

Dadl ar adroddiad y Pwyllgor Cymunedau a Diwylliant ar Ddarlledu Gwasanaethau Cyhoeddus yng Nghymru (60 munud)

3.6 Cytunodd y Pwyllgor ar drefn busnes y Cynulliad.

3.7 Cytunodd y Pwyllgor ar drefn busnes heblaw busnes y Llywodraeth.

**4. Pwyllgorau**

**Cais i gynnal cyfarfod ffurfiol y Pwyllgor ar gyfer Craffu ar Waith y Prif Weinidog ar 1 Hydref 2009 - BC(3)23-09(p4)**

4.1 Cytunodd y Pwyllgor Busnes ar y cais i'r Pwyllgor ar gyfer Craffu ar Waith y Prif Weinidog gynnal ei gyfarfod ffurfiol cyntaf ddydd Iau, 1 Hydref am 9am, yn Ystafell Bwyllgora 4.

**5.Deddfwriaeth**

**Llythyr gan Gadeirydd Pwyllgor Deddfwriaeth Rhif 1: Gweithdrefn ar gyfer trafod adrannau newydd yn ystod trafodion Cyfnod 2 - BC(3)23-09(p5)**

5.1 Ystyriwyd llythyr gan Gadeirydd Pwyllgor Deddfwriaeth Rhif 1 ynglŷn â'r weithdrefn ar gyfer gwaredu diwygiadau i fewnosod adrannau newydd i Fesur arfaethedig. Cytunodd y Pwyllgor Busnes i ystyried safbwyntiau Pwyllgor Deddfwriaeth Rhif 1 pe byddai'n cynnal adolygiad o'r gweithdrefnau yn y dyfodol.

**6. Unrhyw fater arall**

6.1 Dywedodd y Llywydd bod cynnig wedi'i gyflwyno yn unol â Rheol Sefydlog 3.10 i roi cyfarwyddiadau i'r Comisiwn. Dywedodd, yn unol â Rheol Sefydlog 3.10, rhaid i'r Pwyllgor Busnes gyflwyno adroddiad ynghylch a ddylid sicrhau amser i drafod y cynnig. Cytunodd y Pwyllgor Busnes i ail-edrych ar y mater yn ei gyfarfod nesaf.

**YSGRIFENYDDIAETH Y PWYLLGOR BUSNES**